CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad:	**17 Mehefin 2022**
Teitl:	**Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2022-2023 – materion a gyfeiriwyd gan y Cyngor er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried materion a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor i'w hystyried cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor ar 7 Gorffennaf 2022.**

Cefndir

Mae gofyn i'r Cyngor lunio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau yn flynyddol er mwyn arfer y pwerau a roddir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) ac fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 i 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ogystal, rhaid i'r Rhestr fodloni gofynion Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Ar 20 Mai 2022 cyflwynwyd i'r Cyngor y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23. Cymeradwyodd y Cyngor y Rhestr, ac eithrio'r canlynol – cytunwyd i'w ohirio er mwyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei ystyried ymhellach:

- Paragraff 8; pwynt bwled 6 a 7 o'r blaen adroddiad –
  "Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid, sy'n golygu na fydd angen i'r holl Gynghorwyr fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor er mwyn mynychu cyfarfodydd. Dylai'r rheini nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol ymuno â'r cyfarfodydd o bell.

  "Rhaid i bresenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi gael caniatâd ymlaen llaw gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd."

- Paragraff 15.1 o'r Rhestr – "Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad mor bell y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael ei ganiatáu ymlaen llaw gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd."

Y rhesymau am y newidiadau arfaethedig

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

  Dywed y Ddeddf fod yn "rhaid i awdurdod lleol wneud a chyhoeddi trefniadau at ddiben sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd."

  Gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offer newydd yn Siambr y Cyngor sy'n galluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion statudol newydd.

  Mae Cam 1 y gwaith wedi'i wneud. Bydd Cam 2 yn gwella'r profiad i'r rheiny sy'n mynychu yn bersonol neu o bell, a bydd yn well o ran ymarferoldeb.

  Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym eisoes wedi gweld enghreifftiau o Gynghorwyr a Swyddogion yn mynychu cyfarfodydd o bell.

- Amrywiaeth

  Ar 23 Medi 2021 bu i Gyngor Sir Ceredigion gymeradwyo Datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth'.

  Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi bod yn cymryd camau i hybu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol a mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r heriau ynghylch denu cynghorwyr mwy amrywiol. Nododd CLlLC mai'r rhwystrau a'r heriau oedd, yn fras:
  - Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfodydd;
  - Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
  - Gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
  - Beirniadaeth gyhoeddus a cham-drin ar-lein;
  - Cydnabyddiaeth ariannol ac effaith ar gyflogaeth; a
  - Diffyg modelau rolau a deiliaid swyddi amrywiol.

  Dyma'r prif gamau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn arwain at Etholiadau Lleol 2022, gyda'r nod o ddenu cynghorwyr mwy amrywiol:
  - Canllaw i ddarpar ymgeiswyr yn yr Etholiadau Lleol. Roedd hwn yn manylu ar rôl Cynghorydd, y gwahanol Bwyllgorau, y broses enwebu ac ati. Roedd y Canllaw hefyd yn cyfeirio at y cyfraniadau y gall y Cyngor eu gwneud tuag at gostau gofalu yn ogystal ag absenoldeb teuluol ac ati.
  - Galluogi cyfarfodydd hybrid a fydd yn rhoi hyblygrwydd i'r rheiny sydd ag ymrwymiadau gofalu neu ymrwymiadau gwaith;
  - Darlledu cyfarfodydd neu alluogi pobl i ymuno â chyfarfodydd o bell fel y gallant weld y math o drafodaethau sy'n digwydd.

- Carbon

  Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon 2018-2023 sy'n nodi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r Cynllun yn nodi cyfres o gamau gweithredu lle mae Cyngor Sir Ceredigion yn 'gosod esiampl drwy arwain y ffordd ymhlith sefydliadau sector cyhoeddus'.

  Mae'r Cynllun yn nodi fod lleihau teithio ar fusnes yn ffordd o gyfrannu at leihau carbon. Bydd symud tuag at fodel hybrid yn lleihau costau yn sylweddol ac yn lleihau ôl troed carbon yr Aelodau a'r Swyddogion.

- Cyllideb

Byddwch eisoes yn ymwybodol fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud dros £50m o arbedion cyllideb dros y 10 mlynedd diwethaf a rhagwelir rhagor o arbedion sylweddol dros y tair blynedd nesaf o leiaf.

Mae'r holl gyllidebau wedi'u cwtogi gan gynnwys y cyllidebau teithio ar gyfer Swyddogion ac Aelodau. Yn ystod y cyfnod hwn mae treuliau'r Swyddogion wedi gostwng o tua £2.4m i £750k. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod mae treuliau'r Aelodau wedi aros yn gyson ar oddeutu £45,000 y flwyddyn.

Yn hanesyddol, mae Aelodau a Swyddogion wedi cael eu galw'n rheolaidd i gyfarfodydd yng Nghaerdydd sydd yn para dim mwy nag awr. Mae enghreifftiau lle gofynnir i Aelodau a Swyddogion fynychu ail gyfarfod y diwrnod wedyn ac felly mae angen llety dros nos hefyd. Bydd defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael yn arwain at wneud arbedion corfforaethol sylweddol ac yn gosod esiampl dda ar gyfer arferion gwaith yn y dyfodol ledled y wlad.

Casgliadau

Mae'r materion y tynnir sylw atynt uchod yn amlygu'r angen i reoli'n ofalus y treuliau am deithiau a wneir yn y Sir a thu hwnt i'r Sir.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn technoleg i alluogi Aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell gan arbed costau, carbon ac amser.

Rydym wrthi'n gofyn i sefydliadau megis Llywodraeth Cymru, CLlLC, ac ati, sicrhau fod dewis bob amser i Swyddogion ac Aelodau fynychu cyfarfodydd, cynadleddau, hyfforddiant ac ati o bell.

Mae'r pandemig wedi dangos bod mynychu cyfarfodydd o bell yn effeithiol ac yn effeithlon, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd y tu allan i'r sir.

Mae'r gofyniad i ofyn am ganiatâd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer aros dros nos wedi bod ar waith ac wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ers 2017.

Argymhelliad:	**Bod y Pwyllgor yn nodi'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2022-2023 ac yn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor.**
Atodiadau:	Dim
Papurau Cefndirol:	Adroddiad i'r Cyngor, 20 Mai 2022 – Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022-2023 (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022-2023); Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021; Adroddiad i'r Cyngor, 23 Medi 2021 – Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth; Canllaw i Ymgeiswyr ar gyfer darpar ymgeiswyr yn Etholiadau Lleol 2022; Cynllun Rheoli Carbon; Adroddiad i'r Cyngor, 3 Mawrth 2022 – Cyllideb 2022/23; Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/23 ymlaen; Lwfansau Aelodau yn y blynyddoedd blaenorol.
Enw:	Lowri Edwards
Teitl swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	08.06.2022